## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (CYLCHFAN LLWYNHELYG, HWLFFORDD, SIR BENFRO) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yn Hwlffordd, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd;

ii. gosod terfyn cyflymder o 50 mya, 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Dim ond yn ystod gwaith confoi y disgwylir y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 21 Medi 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) rhwng 21 Medi a 5 Hydref 2026, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir i'r cyfyngiadau cyflymder dros dro a dim goddiweddyd weithredu, yn ôl yr angen, yn ystod y dydd.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A40 TRUNK ROAD (WITHYBUSH ROUNDABOUT, HAVERFORDWEST, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Haverfordwest, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described therein;

ii. impose a 50 mph, 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the trunk road described in the Schedule to this Notice. The 10 mph speed limit is only expected to apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 21 September 2026. The temporary prohibition is expected to operate overnight (20:00 – 06:00 hours) from 21 September to 5 October 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed. The temporary speed restrictions and no overtaking are expected to operate, as required, during the daytime.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Llwynhelyg yr A40, Hwlffordd, Sir Benfro.

Y llwybrau eraill

D.S. Ni fydd ochrau dwyreiniol a gorllewinol y gylchfan ar gau ar yr un pryd.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy’n teithio tua’r de pan fydd ochr ddwyreiniol y gylchfan ar gau yw mynd ar yr A40 tua’r de i Gylchfan Salutation Square yr A40/A4076 a’r A40 tua’r dwyrain i Gylchfan Scotchwell: i’r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy’n teithio tua’r gogledd.

Pan fydd ochr orllewinol y gylchfan ar gau, dylai traffig sy’n teithio tua’r de ddilyn ffordd osgoi’r A40 tua’r de-ddwyrain i Gylchfan Scotchwell a’r A40 tua’r gorllewin i Gylchfan Salutation Square yr A40/A4076: i’r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy’n teithio tua’r gogledd.

## SCHEDULE

The circulatory carriageway of the A40 Withybush Roundabout, Haverfordwest, Pembrokeshire.

Alternative routes

N.B. The eastern and western sides of the roundabout will not be closed at the same time.

The alternative route for southbound traffic when the eastern side of the roundabout is closed is via the southbound A40 to the A40/A4076 Salutation Square Roundabout and eastbound A40 to Scotchwell Roundabout: vice versa for northbound traffic.

During closures of the western side of the roundabout, southbound traffic should follow the south-eastbound A40 bypass to the Scotchwell Roundabout and westbound A40 to the A40/A4076 Salutation Square Roundabout: vice versa for northbound traffic.